Hawdd ei Ddeall

# Cyngor Celfyddydau Cymru

## Ein cynllun i helpu rhagor o bobl i gymryd rhan yn y Celfyddydau yng Nghymru



Arty Parky, Bedwellty Park, Head4Arts (delwedd: Ryan Davies)

This Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024**.

**Mawrth 2021**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabd i'ch helpu chi.



Efallai bod geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl i'w weld ar **dudalen 29**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl Cyngor Celfyddydau Cymru. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:** www.arts.wales/cy

**E-bost:** information@arts.wales

**Ffôn:** 03301 242733

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y ddogfen yma, cliciwch yma.

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma** | **2** |
| **Cyflwyniad** | **4** |
| **Amcan Cydraddoldeb 1** | **6** |
| **Amcan Cydraddoldeb 2** | **11** |
| **Amcan Cydraddoldeb 3** | **17** |
| **Amcan Cydraddoldeb 4** | **20** |
| **Amcan Cydraddoldeb 5** | **25** |
| **Geiriau anodd** | **29** |

# Cyflwyniad



Rydyn ni eisiau i'r celfyddydau fod i bawb.



Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith yn y gorffennol i wneud y celfyddydau yn fwy cyfartal, ond mae angen inni wneud rhagor.

Mae'r ymgyrchoedd **Black Lives Matter** a **We Shall Not be Removed** wedi gwneud hyn hyd yn oed yn fwy pwysig.



Rydyn ni'n poeni'n arbennig am y nifer isel o bobl anabl a phobl **BAME** sydd yn gweithio yn y celfyddydau.

Mae **BAME** yn meddwl pobl Ddu, Asaidd neu **Leiafrif Ethnig**. Pobl lleiafrif ethnig ydy pobl sydd yn byw mewn lleoedd lle mae'r rhan fwyaf o'r bobl eraill o wahanol hil.




Yn 2019 stopiodd **Covid-19** ein holl raglenni a'n gweithgareddau. Rydyn ni eisiau i gydraddoldeb fod yn rhan bwysig o sut rydyn ni'n dod yn ôl i normal.



Rydyn ni wedi dewis 5 peth i ganolbwyntio arnyn nhw, a fydd yn ein helpu ni i wneud y celfyddydau yn fwy cyfartal. Rydyn ni wedi galw nhw yn **Amcanion Cydraddoldeb**.

Mae ein **Amcanion Cydraddodeb** yn bethau pwysig sydd yn rhaid inni eu gwneud fel bod y celfyddydau yn fwy teg i bawb.



Mae'r cynllun yma yn dweud beth fyddwn ni yn ei wneud dros y 4 blynedd nesaf i ateb ein amcanion cydraddoldeb.

# Amcan Cydraddoldeb 1



**Gweithio gydag artistiaid, cyrff eraill a phobl o grwpiau sydd ddim wedi cael eu trin yn gyfartal.**

**Pam?**



Dyma'r bobl orau i'n helpu ni i newid. Fe fydd yn ein helpu ni i ddeall sut i wneud y celfyddydau yn fwy cyfartal.

**Sut?**



Fe fyddwn ni'n siarad gyda'r grwpiau yma ac yn gwrando a dysgu. Fe fyddwn ni'n recordio beth rydyn ni wedi ei ddysgu a sut mae pethau wedi newid oherwydd hynny.




Fe fyddwn ni'n dangos sut mae'r artistiaid rydyn ni'n gweithio gyda nhw a phobl o **grwpiau gwarchodedig** wedi helpu i gefnogi'r newidiadau rydyn ni'n eu gwneud.




**Grwpiau gwarchodedig** ydy grwpiau o bobl mae'r gyfraith yn eu hamddiffyn rhag cael eu trin yn annheg oherwydd pwy ydyn nhw. Er enghraifft, mae'n erbyn y gyfraith i drin rhywun yn wahanol ac yn annheg oherwydd eu hoedran.

Y **grwpiau gwarchodedig** ydy:



- Pobl o wahanol oedran.

- Pobl anabl.



- Menywod sydd yn feichiog neu yn bwydo o'r fron.

- Pobl o wahanol grefyddau.



- Menywod lesbaidd, dynion hoyw a phobl deurywiol.



- Dynion a menywod.

- **Pobl trawsrywiol**.



**Pobl Trawsrywiol** ydy pobl sydd wedi cael eu geni fel un rhyw ond sydd y rhyw arall. Er enghraifft efallai bod person sydd yn edrych fel dyn yn fenyw ar y tu mewn.

- Pobl sydd wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil.



- Pobl Ddu, Asiaidd a **Lleiafrifoedd Ethnig**.

# Camau gweithredu ar gyfer 2020 i 2021



Byddwn yn siarad ag artistiaid o gefndiroedd Du, Asiaidd a **Lleiafrifoedd Ethnig**. A gyda phobl o ardaloedd tlotach.



Fe fyddwn ni'n gwneud hyn i ddysgu am sut rydyn ni'n gallu gwneud y celfyddydau yn fwy teg i'r grwpiau yma.



Fe fyddwn ni'n ysgrifennu **cynllun adfer Covid-19**. Fe fydd y cynllun yma yn dweud sut fyddwn ni'n cefnogi'r Celfyddydau yng Nghymru i aros yn gryf drwy Covid-19.



Fe fydd cydraddoldeb yn rhan pwysig o'r cynllun yma. Fe fyddwn ni'n gofyn i'n aelod gyrff wneud yr un fath.



Mae gennym ni grŵp o bobl sydd yn gyfrifol am wneud ein corff yn gyfartal. Fe fyddwn ni'n gwneud y grŵp yma yn fwy ac yn fwy **amrywiol.**

Mae **amrywiol** yn meddwl llawer o wahanol fathau o bobl o wahanol gefndiroedd.

## Camau gweithredu ar gyfer 2021 i 2022



Fe fyddwn ni yn wneud yn siŵr bod pawb yn gallu bod yn rhan o'r sgyrsiau rydyn ni'n eu cael gydag artistiaid a chyrff eraill.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda chyrff eraill i helpu ein gilydd i fod yn fwy cyfartal.

## Camau gweithredu hir dymor



Parhau i gael sgyrsiau pwysig gydag artistiaid o **grwpiau gwarchodedig**. A cadw golwg ar ein cynnydd.



Parhau i ddweud wrth bawb sut mae pethau'n mynd.



Cael pobl o **grwpiau garchodedig** i arwain ar y gwaith yma.




Parhau gyda'n gwaith da o'n cynllun diwethaf.




Mae ein gwefan newydd yn meddwl ein bod ni'n gallu dangos llawer o wybodaeth. Ac mae ein gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol ar gael mewn gwahanol ieithoedd. Cymraeg, Saesneg, Iaith Arwyddion Prydeinig a rhai ieithoedd eraill.

# Amcan cydraddoldeb 2



Cael rhagor o bobl o grwpiau gwarchodedig i weithio yn y celfyddydau.

**Pam?**




Fel bod rhagor o bobl o **grwpiau gwarchodedig** yn rhan o'r penderfyniadau a'r datblygiad. Rydyn ni wedi ceisio gwneud ein gweithlu yn fwy **amrywiol** o'r blaen, ond dydyn ni ddim wedi gwneud hynny yn ddigon da.

**Sut?**



Fe fyddwn ni'n edrych ar wybodaeth am bobl o'n holl ddigwyddiadau celfyddydau yng Nghymru.




Mae'r wybodaeth yma yn dod o'r **Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru**. Rydyn ni'n anfon yr arolwg yma at ein haelodau Portffolio Celfyddydau bob 6 mis. Mae'n ein helpu ni i gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau celfyddydau a phwy sydd yn mynd iddyn nhw.



Bob blwyddyn hefyd fe fyddwn ni'n edrych ar sut hwyl mae ein haelod gyrff wedi ei gael. Fe fyddwn ni'n gwneud hyn drwy edrych ar eu **Amcanion Cydraddoldeb.**




Fe fydd rhaid i'n haelod gyrff osod targedau eu hunain hefyd. Ac fe fyddwn ni'n edrych i weld sut maen nhw'n gwneud.



Fe fyddwn ni'n edrych ar wybodaeth am pwy rydyn ni'n eu cyflogi a sut rydyn ni yn eu cyflogi nhw.



Ac fe fyddwn ni'n edrych ar wybodaeth am sut mae ein corff yn gwella.



Fe fyddwn ni'n gofyn i'n grwpiau sydd yn gyfrifol am gydraddoldeb a thâl i edrych ar yr wybodaeth yma.



Fe fyddwn ni'n recordio gwybodaeth am sut rydyn ni'n prynu pethau a sut rydyn ni'n cael gwasanaethau gan eraill.

## Cynllun hir dymor



Bydd gennym ddwywaith cymaint o bobl anabl a phobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a **Lleiafrifoedd Ethnig** yn gweithio yn y celfyddydau.



Fe fyddwn ni'n profi bod y gwaith rydyn ni wedi ei wneud wedi helpu hyn.



Fe fydd gennym ni dair gwaith cymaint o bobl o'r cefndiroedd yma ar ein timau sydd yn gwneud penderfyniadau.

## Camau gweithredu ar gyfer 2020 i 2021



Fe fyddwn ni'n cyflogi **Asiant am Newid**. Eu gwaith fydd gwneud y Cyngor Celfyddydau yn fwy cyfartal.



Fe fyddwn ni'n defnyddio'r person yma i ddeall beth mae pobl yn feddwl am ein corff.



Fe fyddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth yma i wneud newidiadau.

# Camau gweithredu ar gyfer 2021 i 2022




Helpu cyrff celfyddydau eraill i wneud newidiadau a gwneud **amrywiaeth** yn fwy pwysig.



Fe fyddwn ni'n gwella wrth weld sut mae **amcanion cydraddoldeb** cyrff celfyddydau eraill yn gweithio.



Ac fe fyddwn ni'n gweithio allan y ffordd orau i ddangos yr wybodaeth yma i'r cyhoedd.




Fe fyddwn ni'n gweithio ar ein cynlluniau ar raglen i'n helpu ni i newid, ac enw'r rhaglen fydd **Rhaglen Gwneud Newid Cymru**.



Fe fyddwn ni'n creu grŵp i helpu i wneud ein cyfarfodydd yn llai ffurfiol, i'w gwneud nhw'n fwy hawdd i bawb eu deall.



Pan rydyn ni'n edrych ar sut rydyn ni'n gwario arian fe fyddwn ni'n meddwl am gydraddoldeb.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fe fyddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i wneud ein gweithle yn fwy **amrywiol**. Fe fyddwn ni'n gwneud hyn drwy lofnodi'r **Contract Diwylliannol**.



Fe fyddwn ni'n gofyn i gyrff celfyddydau eraill rydyn ni'n gweithio gyda ni i lofnodi hwn hefyd.




Fe fyddwn ni'n edrych drwy ein cynllun i helpu'r Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebiadau a Theatr. Fe fyddwn ni'n dechau'r **Cynllun Gweithredu Amrywiaeth Theatr**.



Fe fyddwn ni'n rhedeg rhaglenni gyda chyrff eraill i wella ein gweithlu. Cyrff fel **Weston Jerwood a Sgiliau Creadigol a Diwylliannol**. A'n rhaglenni **Ffolio** a **Gorwelion**.



Mae'r rhaglenni yma yn gallu ein helpu i adeiladu gweithlu mwy **amrywiol** drwy gyllid a chyngor.

# Camau gweithredu hir dymor



Fe fyddwn ni'n newid y ffordd rydyn ni'n cyflogi pobl.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda'n holl bartneriaid a phobl o **grwpiau gwarchodedig** i wneud hyn.



Fe fyddwn ni'n edrych yn agos ar y ffordd rydyn ni'n darganfod pobl i weithio inni.



Ac fe fyddwn ni'n edrych yn agos iawn ar y ffordd rydyn ni'n cyfweld pobl.



Fe fyddwn ni'n meddwl am y ffordd rydyn ni'n hyfforddi ein staff ac fe fyddwn ni'n gwneud hyn yn well.

# Amcan cydraddoldeb 3



**Gwneud yn siŵr bod pawb yn y celfyddydau yng Nghymru yn cael eu talu'n gyfartal**

**Pam?**



Rydyn ni'n gwybod nad ydy'r ffordd mae pobl yn cael eu talu yn gyfartal.

**Sut?**



Fe fyddwn ni yn edrych ar y ffordd y mae pobl wedi cael eu talu gennym ni yn y gorffennol. Fe fydd ein pobl sydd yn gyfrifol am wneud pethau'n gyfartal yn edrych ar hyn.



Ac fe fyddwn ni'n meddwl am **weithwyr llawrydd**.

**Gweithiwr llawrydd** ydy rhywun sydd yn gweithio iddyn nhw eu hunain.




Fe fyddwn ni’n defnyddio arolygon i ddysgu rhagor am sut mae pobl yn cael eu talu yn y celfyddydau yng Nghymru. Yn enwedig **gweithwyr llawrydd**.

## Cynllun hir dymor



Fe fydd gennym ni ffyrdd da o weld bod pobl yn cael eu talu’n gyfartal yn y celfyddydau.



Fe fyddwn ni’n cefnogi tâl teg a chyfartal yn y celfyddydau ar draws Prydain, yn enwedig i **weithwyr llawrydd**.

## Camau gweithredu ar gyfer 2020 i2021



Fe fyddwn ni’n edrych i weld pa mor gyfartal rydyn ni’n talu pobl yn ein corff ein hunain.



Os ydy’r ffordd rydyn ni’n talu pobl ddim yn gyfartal fe fyddwn ni’n cynllunio ffyrdd i newid hyn.



Fe fyddwn ni'n siarad gydag artistiaid, cyrff eraill a llawer o bobl eraill am wneud tâl yn fwy cyfartal yng Nghymru.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siwr bod artistiaid sydd yn gweithio inni yn cael y swm cywir o dâl.

## Camau gweithredu ar gyfer 2021 i 2022



Fe fyddwn ni'n parhau i weithio ar dalu pobl yn gyfartal yn ein corff ein hunain.



Fe fydd gennym ffordd well o weld sut rydyn ni'n talu am bethau yn ein corff ein hunain.



Fe fydd hyn yn gwneud yn siŵr bod mynediad teg a chyfartal i'r pethau rydyn ni'n eu defnyddio.




# Amcan cydraddoldeb 4

**Rhoi rhagor o arian i wahanol artistiaid a chyrff er mwyn iddyn nhw allu dangos eu gwaith yn y ffordd maen nhw eisiau.**



**Pam?**

Rydyn ni'n gwybod nad ydy'r ffordd mae arian yn cael ei roi allan mor deg ag y gallai fod.



Rydyn ni'n gwybod nad ydy'r ffordd mae pobl yn cael cefnogaeth yn y celfyddydau mor deg ag y gallai fod.



Rydyn ni'n gwybod nad ydy'r ffordd mae pobl yn cael gwybodaeth am help mor deg ag y gallai fod.


**Sut?**



Fe fyddwn ni'n edrych ar sut mae pobl yn gallu gofyn am arian gennym ni ac fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiadau am hyn.



Fe fyddwn ni'n edrych yn ofalus ar faint o bobl o **grwpiau gwarchodedig** sydd yn cael eu cynnwys.




Ac fe fyddwn ni'n edrych i weld os oes unrhyw waith rydyn ni wedi ei wneud o'r blaen wedi helpu.

## Cynllun hir dymor



Fe fyddwn ni'n gallu dangos bod gan bawb fynediad i arian gennym ni.



Fe fyddwn ni'n dangos ein bod yn cefnogi rhagor o artistiaid a chyrff gyda phobl o **grwpiau gwarchodedig**.




Fe fyddwn ni'n dangos hyn yn y prosiectau rydyn ni'n rhoi arian iddyn nhw.



## Camau gweithredu ar gyfer 2020 i 2021

Fe fyddwn ni'n edrych ar y ffordd mae pobl yn gwneud cais am arian gennym ni.



Ac yn edrych ar y ffordd rydyn ni'n penderfynu i bwy i roi arian.



Fe fydd hyn yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod ni'n cyrraedd rhagor o bobl yng Nghymru.




Fe wnaeth ein **Cronfeydd Ymateb Brys i Covid-19** gyrraedd rhagor o bobl o'r **grwpiau gwarchodedig** na'n rhaglenni eraill.



Fe fyddwn ni'n dysgu o hyn.



Fe fyddwn ni'n defnyddio ein Rhaglen Camau Creadigol i gefnogi celfyddyd wedi'i arwain gan artistiaid Byddar ac anabl. Ac i gefnogi artistiaid Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

# Camau gweithredu ar gyfer 2021 i 2022



Rydyn ni eisiau helpu rhagor o gyrff ac unigolion **amrywiol** i wneud cais am arian.



Fe fyddwn ni'n gofyn i bobl ac arbenigwyr y tu allan i'n corff ein hunain i'n helpu ni i ddeall sut rydyn ni'n gallu gwneud hyn.



Rydyn ni eisiau deall sut rydyn ni'n gallu helpu'r ceisiadau hynny i fod yn llwyddiannus.



Rydyn ni eisiau i **amrywiaeth** fod yn rhan o'r ffordd rydyn ni'n gwneud penderfyniadau



Ac rydyn ni eisiau gwell ffordd o weld lle mae ein harian yn mynd a faint o help ydy'r arian hwnnw.



Fe fyddwn ni'n parhau i edrych ar y ffordd rydyn ni'n ymchwilio. Fe fyddwn ni'n parhau i geisio gwneud hyn yn well.



Fe fyddwn ni'n defnyddio rhagor o raglenni sydd yn cefnogi cyrff celfyddydau. Fe fydd y rhaglenni yma yn cynnwys C**amau Creadigol, Diderfyn, Rhannu Gyda'n Gilydd,** a **Rampiau ar y Lleuad**.

## Camau gweithredu hir dymor



Fe fyddwn ni'n parhau i edrych ar ein holl waith ar hyn.

# Amcan cydraddoldeb 5



Rydyn ni eisiau gweld y bobl sydd yn mynd i weld y celfyddydau yn bobl mwy amrywiol.

**Pam?**



Rydyn ni'n gwybod bod hyn yn gwella, ond rydyn ni eisiau gwneud rhagor.

**Sut?**



Fe fyddwn ni'n edrych ar yr wybodaeth rydyn ni'n ei gael o'n harolygon.

Fe fydd hyn yn dweud wrthyn ni am bwy sydd yn mynd i weld ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau.



Fe fydd hefyd yn dweud wrthyn ni os oes unrhyw waith rydyn ni wedi ei wneud i helpu hyn wedi gweithio.

Mae'r **Asiantaeth Cynulleidfa** yn casglu gwybodaeth am **amrywiaeth** pobl sydd yn mynd i weld y celfyddydau. Fe fyddwn ni'n cael gwybodaeth ganddyn nhw.




Fe fyddwn ni'n parhau i fod yn rhan o **Arolwg Cenedlaethol Cymru**. Mae'r arolwg yma yn casglu llawer o wybodaeth, yn cynnwys pwy sydd yn cael mynd i weld y celfyddydau.



Fe fyddwn ni'n casglu ac yn edrych ar wybodaeth am bobl oedd wedi cymryd rhan yn y cefyddydau yn ystod **Covid-19**. Fe fyddwn yn defnyddio **Arolwg Indigo** i'n helpu ni i wneud hyn.

## Cynllun hir dymor



Fe fyddwn ni'n profi bod mwy o bobl **amrywiol** yn mynd i weld ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau.



Fe fydd llawer mwy o bobl o ardaloedd mwy tlawd yn mynd i weld a chymryd rhan yn y celfyddydau.

# Camau gweithredu ar gyfer 2020 i 2021




Fe fyddwn ni'n defnyddio rhywbeth o'r enw **7 Egwyddor Cynhwysol i'r Celfyddydau** i ysgrifennu **cynllun adfer Covid-19**.



Fe fydd hyn yn ein helpu ni i wneud yn siŵr bod cydraddoldeb yn rhan o'n hadferiad ar ôl Covid-19. A helpwch i sicrhau bod pobl anabl a phobl Ddu, Asiaidd a **Lleiafrifoedd Ethnig** yn cael eu trin yn gyfartal.



Fe fyddwn yn cefnogi gwaith i gynnwys pobl sydd yn cael llai o gyfle i weld a chymryd rhan yn y celfyddydau.




Fe fyddwn yn dweud sut rydyn ni wedi llwyddo gyda hyn cyn Mawrth 2021.

# Camau Gweithredu ar gyfer 2021 i 2022




Mae ein **Cynllun Hynt** yn helpu pobl anabl i gael mynediad i'r theatr a'r celfyddydau. Fe fyddwn yn aros i weld os ydy Covid-19 wedi effeithio ar hyn.



Fe fyddwn yn parhau i ddatblygu ein **Cynllun Hynt** ar draws Cymru.





Fe fyddwn yn ailddechrau ein **Cynllun Cymuned Noson Allan** oedd yn helpu i dalu am y celfyddydau mewn ardaloedd mwy tlawd.




Fe fyddwn yn cymryd beth rydyn ni wedi ei ddysgu o flwyddyn gyntaf y cynllun yma i wneud hyd yn oed mwy o waith yn yr ail flwyddyn.



Rydyn ni'n rhedeg rhai rhaglenni am y **celfyddydau, iechyd a dysgu**. Fe fyddwn yn gwneud yn siŵr bod y ffordd rydyn ni yn eu rhedeg nhw yn ein helpu gyda'n nodau.



Mae **Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** yn ein helpu ni i wneud penderfyniadau da am gydraddoldeb. Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein **Cynllun Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg** yn dilyn hyn.

# Geiriau anodd

### Amcanion cydraddoldeb

Pethau pwysig mae'n rhaid inni eu gwneud fel bod y celfyddydau yn fwy teg i bawb

### Gweithiwr llawrydd

Gweithiwr llawrydd ydy rhywun sydd yn cael eu talu i weithio iddyn nhw eu hunain, nid cwmni.

### Grwpiau gwarchodedig

Grwpiau gwarchodedig ydy grwpiau o bobl y mae'r gyfraith yn eu hamddiffyn rhag cael eu trin yn annheg oherwydd pwy ydyn nhw. Er enghraifft, mae'n erbyn y gyfraith i drin rhywun yn wahanol ac yn annheg oherwydd eu hoedran.

### Lleiafrifoedd Ethnig

Lleiafrifoedd Ethnig yw pobl sy'n byw mewn lleoedd lle mae'r mwyafrif o'r bobl eraill yn hil wahanol.

### Trawsrywiol

Mae pobl drawsrywiol yn bob sydd wedi cael eu geni fel un rhyw ond maen nhw'r rhyw arall. Er enghraifft, efallai bod person sydd yn edrych fel dyn yn fenyw ar y tu mewn.